Neges y Cadeirydd

Sefydlwyd Ofcom fel rheoleiddiwr cydgyfeiriedig, i raddau helaeth i helpu stiwardio diwydiannau cyfathrebiadau electronig Prydain yn trosglwyddo o analog i ddigidol, gan ddod â gwasanaethau newydd a gwella ansawdd a dewis i ddefnyddwyr a dinasyddion.

Yn y pedair blynedd ers i mi gael fy mhenodi gyntaf yn Gadeirydd Ofcom, mae'r trosglwyddo hwnnw wedi cyflymu'n fawr: ar ddechrau 2003, roedd bron i un o bob tri chartref a busnes yn dal heb eu cysylltu â chyfnewidfeydd yn cael eu galluogi gan fand eang; a'r consensws oedd mai 1 megabit yr eiliad oedd uchafswm tebygol y cyflymder y gellid ei gyflawni. Heddiw, mae ymron i bawb yn gallu cysylltu, a gall defnyddwyr gael cyflymderau band eang 24 gwaith mor gyflym â chonsensws 2003. Dros yr un cyfnod, mae'r niferoedd a chanddynt deledu digidol wedi cynyddu o 45 y cant i dros 70 y cant o gartrefi; a bellach mae rhaglen glir rhanbarth wrth ranbarth o newid i'r digidol a fydd yn rhoi dewis o ddau ddull o leiaf i gartrefi i dderbyn teledu digidol. Mewn radio, mae'r farchnad DAB wedi cynyddu o ychydig filoedd o setiau i fwy na 3 miliwn heddiw. Ac, mewn technoleg symudol, mae gwasanaethau 3G, nad oedd wedi'i lansio bryd hynny, bellach yn cael eu defnyddio gan dros 4 miliwn o gwsmeriaid.

Mae'r rhain i gyd yn arwyddion o farchnad iach, arloesol sy'n bodloni anghenion defnyddwyr. Mae gan reoleiddio effeithiol ran bwysig i'w chwarae i danategu dynamiaeth y sector; ac mae Ofcom wedi ceisio cynorthwyo'r farchnad i weithredu'n effeithiol drwy hyrwyddo cystadleuaeth ac amddiffyn defnyddwyr rhag camddefnydd amlwg o'r farchnad. Lawn gymaint fodd bynnag, gall rheoleiddio sydd wedi dyddio aflunio'r farchnad ac atal arloesedd. Mae Ofcom felly wedi parhau â'i raglen o ddadreoleiddio wedi'i dargedu; er enghraifft tuag at ddiwedd blwyddyn 2005/06, ymgynghorom ar gynigion i ddileu'r holl reolaethau prisiau manwerthu yn y farchnad telegyfathrebiadau llinell sefydlog.

Mae cystadleuaeth a dewis yn gyffredinol yn ddulliau gwell o ddiogelu buddiannau'r defnyddiwr na rheoleiddio. Heddiw, mae bron 9 miliwn o gartrefi yn gwneud eu galwadau trwy ddarparwyr heblaw am yr un â dyletswydd bresennol, ac mae fwy na 4 miliwn o ddefnyddwyr preswyl - a miliwn a hanner o fusnesau bach - yn cymryd eu llinellau gan weithredwyr cystadleuol. Ar yr un pryd, mae Ofcom wedi gweithredu'n gadarn yn erbyn cam-werthu gan leiafrif bach o weithredwyr i sicrhau y gall defnyddwyr gael hyder mewn uniondeb marchnad gystadleuol.

Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd Ofcom ei bedwar adolygiad strategol o ddarnau cydrannol allweddol y sector cyfathrebiadau – telegyfathrebiadau, y sbectrwm radio, radio a darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus – ac mae'r ffocws wedi symud ymlaen i gyflawni yn erbyn y prif heriau a nodir yn yr adolygiadau hynny.

Bydd y BBC, gyda'i Siarter newydd a newidiadau sylweddol i lywodraethu a rheoleiddio, yn parhau'n ganolog i ddarparu cynnwys nodedig o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd yn y byd newydd hwn. Yn y flwyddyn i ddod mae Ofcom yn edrych ymlaen at adeiladu perthynas gyd-reoleiddio effeithiol gydag ymddiriedolaeth newydd y BBC. Bydd hyn yn cynnwys y rôl newydd a roddwyd i Ofcom gan y Llywodraeth i gynnal Asesiadau Effaith y Farchnad gadarn ac annibynnol o gynigion gwasanaethau newydd y BBC fel rhan o Brawf Gwerth Cyhoeddus Ymddiriedolaeth y BBC.

Thema sy'n gyson i bob un o'n hadolygiadau strategol yw dyfodiad gwir gydgyfeiriad yn y sector cyfathrebiadau - ar y lefel gorfforaethol gyda chyfuniadau a chaffaeliadau rhwng yr hyn a arferai fod yn rhannau gwahanol o'r sector ac yng nghydgyfeiriad llwyfannau, dyfeisiadau a chynnwys a gwasanaethau.

Yn briodol, mae'r cydgyfeiriad hwnnw'n cael ei gydnabod gan y Comisiwn Ewropeaidd yn ei ddrafft o'r Gyfarwyddeb Cyfryngau Gwasanaethau Clyweled sy'n cynnwys llawer o gynigion synhwyrol a blaengar i ryddfrydoli agweddau ar reoleiddio darlledu, sy'n adlewyrchu natur newidiol teledu. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig ymestyn rheoleiddio gwladol y tu hwnt i ddarlledu i amrywiaeth gyfan o wasanaethau cyfryngau newydd. Mae Ofcom wedi dadlau, a bydd yn parhau i ddadlau, ochr yn ochr â Llywodraeth y DU a llawer un yn y sector, bod rheoleiddio yn y maes yma ar draws yr Undeb Ewropeaidd yn annymunol yn ei effaith niweidiol ar arloesedd. Rydym hefyd yn credu fod y cynigion yma bron yn sicr yn anymarferol o ran ymestyn rheoleiddio ymhellach na nifer hydrin a chyfyngedig o ddarlledwyr i filoedd o wasanaethau, ac yn wir unigolion, yn creu cynnwys ar blatfformau cyfryngau newydd. Rydym wedi nodi'n barn yn glir bod cyfraith gyffredinol ar bryderon cyhoeddus allweddol, fel amddiffyn plant, yn cael ei chefnogi gan hunan-reoleiddio a chyd-reoleiddio effeithiol yn ffordd ymlaen lawer gwell. Mae gan y DU draddodiad cryf yn y cyswllt hwn gyda chyrff fel yr Internet Watch Foundation a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu a gafodd ei wneud yn gorff cyd-reoleiddio dros hysbysebu darlledu gan Ofcom; ac mae ei Bwyllgor Darlledu Arfer Hysbysebu, er enghraifft, wedi cynnig ystod o ddulliau diogelu newydd ar gynnwys hysbysebion teledu ar gyfer bwyd a diod fel ymateb i'r pryderon cyhoeddus pwysig ynghylch anghydbwysedd dietegol plant.

Fel y rhagfynegwyd yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf, mae digwyddiadau rhyngwladol wedi bod yn fwy amlwg eleni. Yn ychwanegol at y Gyfarwyddeb Cyfryngau Gwasanaethau Clyweled, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cychwyn ar adolygiad o Fframwaith yr UE ar gyfer Cyfathrebiadau Electronig, ac mae'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd (GRhE) yn cael ei gadeirio eleni gan fy nghyd-weithiwr ar y Bwrdd gweithredol, Kip Meek. Mae'r GRhE wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiwn hefyd i ddod o hyd i ateb ymarferol i brisiau manwerthu a chyfanwerthu gormodol am grwydro symudol rhyngwladol ar draws Ewrop. Ar y llwyfan rhyngwladol ehangach, mae Ofcom yn cynrychioli buddiannau'r DU yng Nghynhadledd Radio Ranbarthol yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol - sef y gyd-drafodaeth ryngwladol fwyaf a mwyaf arwyddocaol ynghylch dyrannu sbectrwm radio mewn mwy na 40 mlynedd.

Wrth ymgymryd â'i waith mae Bwrdd Ofcom yn cael cymorth gan nifer o bwyllgorau a chyrff ymgynghorol. Mae neges Philip Graf, nes ymlaen yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, yn rhoi trosolwg o'r gwaith gwerthfawr y mae'r Bwrdd Cynnwys (yn bwyllgor o'r prif Fwrdd ei hun, gyda phwerau dirprwyedig) wedi ymgymryd ag ef eleni.

Mae Panel Defnyddwyr annibynnol Ofcom yn parhau i roi cyngor ystyriol ac adeiladol am faterion sydd o bwys i'r defnyddiwr preswyl a'r defnyddiwr busnes bach. Croesawn gydnabyddiaeth y Llywodraeth o rôl nodedig a strategol y Panel Defnyddwyr yn ei chynigion ehangach ar gynrychiolaeth defnyddwyr. Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol dros Bobl Hŷn ac Anabl, y Pwyllgorau Ymgynghorol dros y Gwledydd a'r Rhanbarthau a Bwrdd Ymgynghorol Sbectrwm Ofcom wedi rhoi cyngor da ac wedi gwneud cyfraniad sylweddol at broses llunio polisïau Ofcom. Hoffwn nodi gwerthfawrogiad Bwrdd Ofcom i Gadeiryddion ac Aelodau'r cyrff hyn am eu hamser a'u cyngor.

Er bod Ofcom yn statudol yn reoleiddiwr annibynnol, rydym yn atebol i'r Senedd yn ogystal. Yn ychwanegol at y gyfres o friffiau i ASau ac ymddangosiadau gerbron Pwyllgorau Dethol, wedi'i nodi ar dudalennau 106-107 croesawn yn gynnes y cam cyntaf a gymerwyd gan Gadeiryddion y Pwyllgor Dethol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Pwyllgor Dethol Masnach a Diwydiant i gynnal gwrandawiad ar y cyd o waith Ofcom. Ymddengys i ni fod atebolrwydd cydgyfeiriedig ar gyfer rheoleiddiwr cydgyfeiriedig yn synhwyrol a blaengar. Cynhaliwyd y cyd-wrandawiad cyntaf felly ychydig ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2005/06. Edrychwn ymlaen at ymddangos mewn cyd-wrandawiadau felly yn y blynyddoedd i ddod.

Dyma'n pumed flwyddyn fel Cadeirydd Ofcom ac fel mae'r corff yn aeddfedu gwelwn newidiadau priodol ac iachus o gwmpas y Bwrdd. Llynedd ymddeolodd ein His-gadeirydd cyntaf Richard Hooper. Roedd Richard yn aelod o bwys mawr ac roeddem wedi gwerthfawrogi'n fawr iawn ei gyfoeth o brofiad a doethineb, a'r ymrwymiad cryf a roddodd i Ofcom. Ym mis Ionawr 2006, ymunodd Philip Graf fel y Dirprwy Gadeirydd newydd a Chadeirydd y Bwrdd Cynnwys. Croesawn hefyd Stephanie Liston a ymunodd fel Aelod Anweithredol ym mis Medi 2005 a Sean Williams a ymunodd fel Aelod Gweithredol ym mis Ionawr 2006. Roeddwn yn falch iawn hefyd bod tymhorau dau Aelod Anweithredol presennol - sef Ian Hargreaves a Sara Nathan - wedi'u hymestyn. Yn olaf, fel mae Stephen yn sôn yn hwyrach yn yr Adroddiad yma, mae'n bwriadu ymddeol fel Prif Weithredwr Ofcom yn yr hydref. Ar ran y Bwrdd hoffwn fynegi ein diolch i Stephen am yr holl waith caled a'i gyflawniadau.

David Currie, Cadeirydd

Adroddiad y Prif Weithredwr

Ein nod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005/6 oedd gyrru cyflawniad; yn allanol, newidiadau cadarnhaol ar gyfer y sector; ac yn fewnol, ffyrdd newydd o weithio a oedd yn elwa ar y nodweddion effeithlon ar ôl cyfuno a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Yn ystod y flwyddyn, roedd ein prif ffocws mewn pedwar maes:

- gweithredu canlyniadau'r adolygiadau strategol o sectorau; mewn telegyfathrebiadau, darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn teledu, mewn radio ac mewn sbectrwm, yn enwedig masnachu a pharatoi ar gyfer ocsiynu;
- sefydlu ymagweddau newydd at ddwy her gynyddol allweddol; polisi defnyddwyr, a chysylltiad rhyngwladol;
- dileu rhwymedigaethau rheoleiddio dianghenraid ar ddiwydiant, a pharhau i osod rhwystr mawr i herio galwadau am ychwanegu rheoliadau newydd; a
- symleiddio mewnol, mwy o effeithlonrwydd gweithredol a lleihau costau; am y drydedd flwyddyn yn olynol, gweithredodd Ofcom dan gyllideb minws y mynegai prisiau adwerthu (RPI), gan gynhyrchu ffioedd rheoleiddio is i ddiwydiant.

Y sector ac Ofcom

Roedd diwedd yr Adolygiad Strategol o Delegyfathrebiadau ym mis Medi 2005 yn nodi cychwyn cyfnod o newid sylweddol yn y diwydiant llinell sefydlog draddodiadol a, thros amser, o bosib ar draws y sector cyfathrebiadau ehangach fel cyfanrwydd.

Mae'r rhagolwg, am y tro cyntaf, o fynediad i isadeiledd mynediad lleol BT ar delerau union yr un fath â'r rheiny a gynigiwyd i weithgareddau manwerthu BT ei hun yn flaenorol, wedi ysgogi diddordeb eang yn y potensial am wasanaethau newydd dros y ddolen leol. Yn gyfochrog, mae ein gwaith i ysgogi a chefnogi cystadleuaeth gyfanwerthol mewn marchnadoedd telegyfathrebiadau llinell sefydlog wedi esgor ar fuddion gwirioneddol i ddefnyddwyr a busnesau; mae cyfartaledd costau ffôn wedi gostwng 25 y cant er 2003; ac mae cyfartaledd costau band eang wedi gostwng dros 50 y cant tra bod cyflymderau cysylltu nodweddiadol wedi cynyddu pedair gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd gan dros 10 miliwn o gartrefi a busnesau bach gysylltiadau band eang (o gymharu ag 1.8m ar ddechrau 2003), ac roedd dros 80,000 o gartrefi yn cofrestru ar gyfer band eang am y tro cyntaf.

Mae Adolygiad Ofcom o'r Fframwaith Sbectrwm – ac yn gysylltiedig â hynny rhyddhau 400MHz o brif sbectrwm i'r farchnad dros yr ychydig flynyddoedd nesaf – wedi dechrau agor y potensial ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau darlledu a di-wifr newydd ac arloesol. Bydd llawer o'r gwasanaethau hyn yn dibynnu ar ailddefnyddio sbectrwm sy'n cael ei ryddhau pan fydd darlledu teledu analog yn dod i ben o

ganlyniad i'r newid i'r digidol rhwng 2008-2012. Yn 2005/6 cychwynnom ar y gwaith paratoi ar gyfer Adolygiad Ofcom o'r Difidend Digidol, a fydd yn asesu'r modd y dylid sicrhau bod yr adnodd cenedlaethol cyfyngedig a gwerthfawr hwn ar gael. Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd darparwyr cyfathrebiadau di-wifr weld buddion polisi dadreoleiddio, masnachu a rhyddfrydoli Ofcom mewn rheoli sbectrwm, gan ddileu prosesau a chyfyngiadau gweinyddol dianghenraid mewn radio llongau, radio amatur a Band y Bobl.

Yn 2005/6 trosglwyddodd Ofcom yr hawliau ddefnyddio i 15 o drwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, gan alluogi grymoedd y farchnad yn hytrach na'r rheoleiddiwr i bennu'r defnydd optimaidd o'r adnodd gwerthfawr hwn. Ym mis Ebrill 2006, ychydig wedi'r cyfnod dan adolygiad, cynhaliodd Ofcom ei ocsiwn sbectrwm cyntaf, lle'r oedd cynigwyr buddugol, am y tro cyntaf, yn rhydd i benderfynu ar y modd gorau o ddefnyddio'r sbectrwm a wnaed ar gael iddynt.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd darlledwyr teledu ymateb yn gyflymach i'r newidiadau a oedd yn dod i'r amlwg mewn arferion gwylio'r DU, gan erydu rhagdybiaethau hanesyddol ynghylch cwmpas a rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) teledu. O fis Ebrill 2006, roedd dros 70 y cant o'r holl ddeiliaid cartrefi â theledu yn y DU yn gwylio teledu digidol; a bellach mae gan y DU y treiddiad teledu digidol uchaf o bob gwlad yn y byd.

Fel y nodwyd yn Adolygiad PSB Ofcom, nid y newid i'r digidol fydd yr unig her i'r cytundeb rheoleiddio sydd am hanner canrif wedi gorchymyn y dylai rhaglenni gael eu gwneud er budd y cyhoedd yn gyfnewid am fynediad i sbectrwm prin a chynulleidfaoedd mawr (ac enillfawr felly). Fel y mae analog yn ildio'r ffordd i amlsianel ddigidol, i genhedlaeth newydd o wylwyr, mae darlledu llinol traddodiadol yn cael ei olynu gan gynnwys symudol, y rhyngrwyd a chynnwys ar-alw, gan godi heriau newydd ar yr un pryd ynghylch perchenogaeth hawliau; cwestiynau a oedd wrth galon ein hadolygiad o'r sector cynhyrchu teledu.

Bydd y BBC - yn cael ei danategu gan Siarter newydd - mewn sefyllfa bwerus unigryw i fodloni anghenion y cynulleidfaoedd newydd hyn. Yn ystod y flwyddyn, penderfynodd y Senedd bod angen gwrthbwysedd gwrthrychol i asesu'r pwynt lle mae gwerth cyhoeddus yn dod i ben a lle mae blaen-gau'r farchnad yn cychwyn. Yn y dyfodol, bydd Ofcom yn ymgymryd ag Asesiadau Effaith y Farchnad i asesu p'un a fyddai gwasanaethau newydd arfaethedig y BBC - neu newidiadau i wasanaethau presennol - yn gweithredu er niwed i eraill yn y farchnad sy'n darparu'r ysgogiad calonogol i gystadlu.

Mewn radio, lle mae 35 y cant o oedolion wedi gwrando drwy eu setiau teledu digidol, lle mae 20 y cant wedi gwrando dros y rhyngrwyd ac mae cyfran fawr o brif rwydweithiau radio bellach yn cynnig pod-ledu fel dewis safonol, cwblhaodd Ofcom ei adolygiad o'r sector gydag ymrwymiad i dyfu'r cyfrwng ymhellach drwy ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael dros rwydweithiau digidol DAB. Mae gwerthiannau cronnus o setiau radio DAB yn uwch na 3 miliwn bellach, ac mae nifer y bobl sy'n gwrando ar radio digidol wedi dyblu bron mewn 12 mis.

O ganlyniad i'r ehangiad mewn gwasanaethau DAB a nodwyd yn Adolygiad Radio Ofcom, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf bydd amlblecsau DAB lleol yn cael eu hysbysebu er mwyn ddod â buddion radio digidol lleol i'r ardaloedd hynny nad ydynt yn gallu derbyn y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd, a bydd gwasanaethau cenedlaethol newydd ar gael ar ail amlblecs masnachol cenedlaethol, gan ehangu'n sylweddol y dewis i wrandawyr ac atgyfnerthu rôl DAB fel llwyfan cartref radio digidol yn y DU. Yn wahanol i deledu, mae analog yn parhau yn llwyfan pwysig a pherthnasol mewn radio, ac amcangyfrifir bod 150 miliwn o setiau radio FM/AM yn dal i gael eu defnyddio yn y DU yn unig. Mae'r galw am drwyddedau analog yn parhau'n uchel; yn ystod y flwyddyn ariannol dyfarnodd Ofcom 14 o drwyddedau radio masnachol lleol, 98 o drwyddedau radio cymunedol, pedair trwydded gwasanaeth cyfyngedig hirdymor a 495 o drwyddedau gwasanaeth cyfyngedig tymor byr.

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd defnyddwyr yn elwa ar ddewis fwy fyth o wasanaethau band eang cyflymach, gwasanaethau llais dros y rhyngrwyd, teledu a fideo ar alw, sianelau teledu digidol newydd, gorsafoedd radio digidol a dyfeisiadau sy'n symud yn ddi-dor o rwydweithiau cartref i symudol tra'n cynnig teledu, radio, lawrlwythiadau digidol a mwy.

I ddarparwyr, fel defnyddwyr, mae ffiniau traddodiadol rhwng diwydiannau cyfathrebiadau yn dod yn fwyfwy aneglur. Mae mynediad Carphone Warehouse i'r farchnad band eang, BSkyB yn caffael Easynet, ITV yn caffael Friends Reunited a threialon amrywiol gwasanaethau teledu symudol gan BT, Virgin Mobile, O2 ac Arqiva yn rhai enghreifftiau'n unig o gydweithredu a chydgyfnerthu sy'n dod â gwasanaethau band eang, darlledu, symudol a llinell sefydlog ynghyd i lunio mathau newydd o fusnesau.

Mae cydgyfeirio – cwmnïau, diwydiannau, cynnwys, llwyfannau a dyfeisiadau – wedi bod yn destun datganiadau lu, ond yn aml, ar y gorau, nid yw wedi'i gyflawni'n llwyr dros yr 20 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn y dyfodol, fe all 2005/06 gael ei gweld fel y flwyddyn pan ddechreuodd y term ar gyfnod olaf ei daith o gysyniad melin drafod y 1990au, drwy ragwelediad deddfwriaethol y mileniwm yn y Ddeddf Cyfathrebiadau, i realiti diwydiannol heddiw, gyda rhwydweithiau digidol a chyfryngau digidol ar ddod yn hollbresennol mewn miliynau o gartrefi a gweithleoedd y DU.

Adroddiad y Prif Weithredwr

Polisi defnyddwyr

Yn sgil y cyfleoedd newydd hynny daw mwy o gymhlethdod; i ddiwydiant, wrth reoli'r trosglwyddo o analog i ddigidol ac o rwydweithiau cylched swîts i rwydweithiau cenhedlaeth nesaf; ac i ddefnyddwyr, y gall fod angen mwy o ddealltwriaeth arnynt i wneud dewisiadau gwybodus, ac a fydd yn parhau yn darged sgamiau i gam-fanteisio ar y cymhlethdod hwnnw.

Roedd datblygu polisi defnyddwyr Ofcom – a phenodi Cyfarwyddwr newydd a sefydlu tîm un pwrpas – yn ddatblygiad pwysig yn y flwyddyn. Rhoddwyd sylw i ddau brif faes yn adolygiad Ofcom o'r Polisi Defnyddwyr; yr angen i sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth gywir, a'u bod felly'n gallu chwarae rhan mewn marchnad sy'n gweithredu'n dda; a'r angen i weithredu yn erbyn niwed i ddefnyddwyr sy'n dod yn amlwg yn sgil strwythurau annheg neu aneffeithiol yn y farchnad a chamymddygiad neu dwyll corfforaethol.

Rhyngwladol

Fel mewn llawer o bolisïau cyhoeddus y DU, mae datblygiadau yn y Comisiwn Ewropeaidd ac ar draws yr UE yn cael dylanwad cynyddol bwysig ar waith Ofcom. Mae gwersi pwysig i'w dysgu hefyd o farchnadoedd eraill y tu hwnt i'r UE a all gael dylanwad uniongyrchol dros ddatblygiad y sector yn y DU, er enghraifft, ym maes safonau technegol rhyngwladol neu mewn rheoli sbectrwm.

Roedd cysylltiad rhyngwladol yn un o brif flaenoriaethau Ofcom gydol y flwyddyn a bydd yn parhau felly yn y dyfodol. Rydym wedi elwa yn y gwaith hwn ar y mewnwelediadau a gafodd fy Nghydweithiwr ar y Bwrdd Gweithredol, Kip Meek, rôl fel Cadeirydd y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd, rôl yr ymgymerodd â hi ym mis Ionawr 2006.

Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd Ofcom gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i godi'i bryderon ynghylch newidiadau i'r Gyfarwyddeb Teledu Heb Ffiniau a oedd yn cael eu cynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r rhain yn cynnwys cynnig i ymestyn cwmpas rheoleiddio statudol i gynnwys cynnwys clyweled ar y rhyngrwyd; symudiad y mae Ofcom a Llywodraeth y DU yn ystyried sy'n amhriodol.

Hefyd, dechreuodd Ofcom waith i gyfrannu at adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o Fframwaith yr UE ar gyfer Cyfathrebiadau Electronig, sy'n nodi ymagwedd gytûn at reoleiddio telegyfathrebiadau ar draws yr UE; ac at Gynhadledd Radio Ranbarthol yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol, a gynhelir ym mis Mai/Mehefin 2006 i gydlynu penderfyniadau rhyngwladol ar reoli sbectrwm radio a fydd yn cael dylanwad pwysig ar y newid i'r digidol a'r difidend digidol.

Dadreoleiddio

Fel sefydliad cymharol newydd, mae Ofcom, yn fy marn i, yn anghyffredin ymhlith rheoleiddwyr y DU yn gymaint â bod egwyddorion cyfoes rheoleiddio gwell wedi'u hymgorffori yn ein llyfr rheolau statudol, sef Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Mae ymrwymiad i leihau'r baich rheoleiddio ar ddiwydiant yn sail i'n gwaith i gyd; wrth geisio dileu rheolau presennol sydd wedi'u goddiweddyd gan ddatblygiadau'r farchnad ac nad ydynt o fudd bellach; a thrwy wrthsefyll, drwy her fewnol rymus ar lefel Weithredol a Bwrdd, pob ymgais i sefydlu rheoliadau newydd lle mae'r achos dros bennu rheoliadau felly yn ddim llai na hollol amlwg a diamwys.

Yn ystod y flwyddyn cymerwyd camau sylweddol gennym i ddileu, lleihau neu symleiddio rheoliadau; gweler ffigwr 1 am rai enghreifftiau.

Er bod Ofcom yn gorfforaeth statudol annibynnol yn hytrach na'n adran o'r Llywodraeth neu'n gorff cyhoeddus anadrannol, rydym yn cefnogi'n llawn egwyddor ac arfer cynigion y BRTF, ynghyd ag adroddiad Philip Hampton, *Reducing Administrative Burdens: Effective Inspection and Enforcement*.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyhoeddodd Ofcom ei Gynllun Symleiddio ei hun. Mae hwn yn disgrifio ein hymagwedd at reoleiddio; yn amlygu ein cynlluniau ar gyfer gweithgareddau dadreoleiddio; yn rhoi mwy o wybodaeth am y beichiau gweinyddol y credwn y rhown ar ein rhanddeiliaid; ac yn esbonio'r modd y bwriadwn leihau'r beichiau hynny.

Ffigur 1 Dadreoleiddio Ofcom

Telegyfathrebiadau

Rheolaethau prisiau manwerthu
Cynigion i alluogi rheolaethau prisiau manwerthu a llacio ar gostau rhentu llinell a chostau galwadau BT yn dilyn Adolygiad Strategol o Delegyfathrebiadau Ofcom.

Prisiau busnesau mawr
Cynigion i ddadreoleiddio rheolau sy'n rheoli faint mae BT yn ei godi ar fusnesau mawr am wasanaethau telegyfathrebiadau.

Marchnadoedd llais rhyngwladol
Cael gwared â reoleiddiau ar farchnadoedd llais deial-uniongyrchol rhyngwladol.

Marchnadoedd cyfanwerthu band cul
Llacio rheoleiddio ar y ffyrdd y mae galwadau yn cael eu gludo mewn dwy farchnad telegyfathrebu cyfanwerth.

Sbectrwm

Masnachu
Cyflwynwyd masnachu trwyddedau sbectrwm rhwng cwmnïau.

Rhyddhau sbectrwm
Rhyddhawyd sbectrwm i'r farchnad, gan alluogi deiliaid trwyddedau newydd i benderfynu'r modd gorau o ddefnyddio'r sbectrwm.

Radio amatur
Cyflwynwyd trwyddedau radio amatur am oes, gan ddileu'r gofyniad am adnewyddu cyson.

Radio llongau
Dilëwyd y broses drwyddedu flynyddol ar gyfer defnyddwyr radio llongau; mae proses symlach a rhatach yn ei lle.

RFID
Galluogwyd defnyddio technoleg RFID heb yr angen am drwydded.

Ymyriant
Symudwyd o archwiliadau ymyriant arferol i archwiliadau'n canolbwyntio ar achosion lle mae'r risg fwyaf o ymyriant difrifol.

Darlledu

Y Côd Darlledu
Cyhoeddwyd Côd byrrach a symlach sy'n lleihau cyfyngiadau ar gynnwys cyhyd â'i fod wedi'i labelu'n briodol.

Traws-hyrwyddo
Cynigion i lacio'r rheolau sy'n rheoli traws-hyrwyddo sianelau teledu.

Lleoli cynnyrch
Cynigion i lacio'r rheolau ar leoli cynnyrch ar y teledu.

Nawdd teledu
Cynigion i ymestyn nawdd sianelau teledu a radio masnachol.

Adolygiad Radio
Dilëwyd rheoliadau ar fewnbynnau, a chanolbwyntio yn lle hynny ar allgynnyrch, gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd i orsafoedd radio mewn lleoli stiwdios.

Cysylltiad Ewropeaidd
Amlygwyd costau ymestyn y Gyfarwyddeb Ewropeaidd Teledu Heb Ffiniau presennol i gynnwys cynnwys fideo dros y rhyngrwyd.

Adroddiad y Prif Weithredwr

Lleihau costau a gwella effeithlonrwydd

Mae Ofcom yn cael ei ariannu gan ddiwydiant yn bennaf. Mae ein cyllideb weithredol yn gost net i linell waelod cwmnïau sydd wrth galon sector o bwysigrwydd cenedlaethol cynyddol. Mae gwybod y ffaith honno yn llywio ein dymuniad cyson i leihau costau gweithredu gymaint â phosibl a chynyddu effeithlonrwydd mewnol.

Dair blynedd yn ôl fe wnaethom ymrwymo'r sefydliad i leihau'r gyllideb weithredol flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn y traddodiad ariannol rheoleiddio gorau, sef RPI minws x; mewn geiriau eraill, gostyngiad go iawn yn ein gwariant a fyddai, dros amser, yn esgor ar leihad amlwg yn y gost rheoleiddio i'n rhanddeiliaid.

Rydym wedi cyflawni'r ymrwymiad hwnnw bob blwyddyn ers hynny; roedd ein cyllideb weithredol ar gyfer 2005/6 8 y cant yn llai na'r gyllideb ar gyfer 2004/5 mewn termau real. Hefyd, ymdrechwn i gyflawni arbedion fwy fyth yn ystod y flwyddyn ariannol; ar ddiwedd y cyfnod adrodd, cyflawnwyd ein gwaith am y flwyddyn £4.0m o dan y gyllideb, a rhoesom y swm hwn yn ôl i'r diwydiant ar ffurf ffioedd rheoleiddio is ar gyfartaledd. Mae'r ymrwymiad RPI minws x yn parhau i fynd ymlaen; mae'r gyllideb weithredol ar gyfer 2006/7 5 y cant yn is na'r flwyddyn flaenorol, ac yn 12.6 y cant yn is na'r gyllideb weithredol ar gyfer 2004/5.

Niferoedd gweithwyr Ofcom ar 31 Mawrth 2006 oedd 776; i roi hynny mewn cyd-destun, roedd gan y pum sefydliad a ddisodlwyd gennym 1,152 o weithwyr rhyngddynt.

Mae ymagwedd Ofcom at ddarparu pensiwn yn parhau i gynhyrchu budd hirdymor i'n rhwymedigaethau ariannol. Mae gweithwyr sy'n ymuno ag Ofcom yn uniongyrchol (yn hytrach na'r rheiny a ymunodd o'r sefydliadau etifeddiaeth) yn cael cynnig lwfans pensiwn, y gellir ei gyfrannu at gynllun cyfraniad diffiniedig, yn hytrach nag aelodaeth o gynllun pensiwn budd diffiniedig (neu gyflog terfynol) sy'n parhau'n norm y sector cyhoeddus. Yn wahanol i gynlluniau pensiwn gyfraniad diffiniedig - lle mae twf cronfeydd yn deillio o'r marchnadoedd cyfalaf - mae cynlluniau pensiwn budd diffiniedig yn gwneud y darparwr yn agored i risg ariannol sylweddol mewn blynyddoedd diweddarach. O 31 Mawrth 2006, roedd 75 y cant o weithwyr Ofcom yn cael eu cyflogi ar delerau â lwfans pensiwn; mae hyn i fyny o 72 y cant fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2005.

Yn ystod y cyfnod dan adolygiad, cychwynnom hefyd ar archwiliad mawr o'r holl systemau Gwasanaethau Gwybodaeth. Pan sefydlwyd Ofcom, etifeddom ryw 45 o systemau Gwasanaethau Gwybodaeth gwahanol gan y pum sefydliad etifeddiaeth a wnaeth ein rhagflaenu. Yn ystod dwy flynedd gyntaf ein gweithredu, byddai wedi bod yn annoeth i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion Gwasanaethau Gwybodaeth hirdymor y sefydliad; ymysg ein holl waith cynnar i adeiladu ar allu'r sefydliad ac asesu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, roedd yr anghenion hynny'n annhebygol o gael eu nodi'n glir. Cafodd y systemau etifeddiaeth eu hymgorffori felly fel rhywbeth dros dro tra'n aros adolygiad trylwyr.

Cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw yn ystod y flwyddyn, a rhoddwyd y canlyniad - rhaglen aml-flwyddyn sylweddol o'r enw 'Project Unify' i wella galluoedd mewn meysydd mor amrywiol â Thrwyddedu, Gweithrediadau Maes, Cyllid, Adnoddau Dynol, Rheoli Prosiectau, Canolfan Gyswllt Ofcom a mwy - ar waith ym mis Chwefror 2006, ynghyd â phartner Gwasanaethau Gwybodaeth newydd Ofcom, Capgemini

Rydym wedi parhau i resymoli ein portffolio o eiddo hefyd sydd, fel sefydliad llai, yn ormod i'n gofynion. Pan grëwyd Ofcom, etifeddodd 45 eiddo gan y pump rheoleiddiwr blaenorol; mae 21 eiddo bellach wedi'u gwaredu neu'u hildio i'r landlord. Yn 2005/06 roedd hyn yn cynnwys gwaredu ein swyddfa yn Whyteleafe, Surrey, a gododd £2.9m. Hefyd, cafodd tri llawr o bencadlys Ofcom yn Llundain yn Riverside House eu gosod i denantiaid newydd, ac mae pedwerydd llawr ar y farchnad.

Yn ystod y flwyddyn, rhoesom ailstrwythur trefniadol ar waith hefyd i gynyddu ein heffeithiolrwydd gweithredu mewnol. Golygodd hyn nifer o newidiadau mewn cyfrifoldebau gweithredol - gan gynnwys penodi Uwch Bartner, Ed Richards, fel Prif Swyddog Gweithredu - i dargedu medrau ac adnoddau ym mhrif feysydd ffocws Ofcom.

Mae Ofcom wedi datblygu proses fanwl i werthuso'i berfformiad ei hun, er mwyn symleiddio gwaith gweinyddol mewnol ac i sicrhau atebolrwydd allanol priodol. Mae ein fframwaith gwerthuso yn mesur allgynhyrchion a gyflawnwyd yn erbyn ystod eang o feini prawf penodol. Yn yr adroddiad hwn, am y tro cyntaf, mae dadansoddiad o'n perfformiad yn cael ei nodi'n llawn yn yr Adroddiad Gweithredu ac Ariannol; gellir gweld manylion ar dudalen 66.

Edrych tua'r dyfodol

Mae rhagolygon yn y flwyddyn i ddod ar gyfer nifer o ddatblygiadau sylweddol yn y sector, a bydd Ofcom yn ceisio adlewyrchu'r rhain yn ei waith.

Mewn telegyfathrebiadau byddwn yn ceisio hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn gwasanaethau llais a band eang drwy sicrhau gweithredu'n effeithiol Ymrwymiadau Deddf Menter BT Group plc. Byddwn hefyd yn datblygu ein dealltwriaeth o ddatblygiad rhwydweithiau a gwasanaethau cenhedlaeth nesaf ac yn ystyried goblygiadau'r rhain i ddyfodol rheoleiddio, yn enwedig wrth i rwydweithiau mynediad newydd sy'n seiliedig ar opteg ffibrau ddechrau symud o fod yn gysyniad i gyfnod adeiladu.

Byddwn yn parhau â'n rhaglen i ryddhau sbectrwm radio newydd i'r farchnad - gyda chwech dyfarniad pellach i'w gwneud yn 2006/7 - tra'n dadreoleiddio ac yn rhyddfrydoli lle bynnag y bo modd er mwyn hyrwyddo arloesedd i'r eithaf wrth ddefnyddio'r ased cenedlaethol hanfodol hwn. Hefyd, byddwn yn cyhoeddi cynigion ar y modd y bwriadwn gael y buddion gorau i ddefnyddwyr a chynulleidfaoedd o'r difidend digidol a fydd yn cael ei ryddhau yn sgil y newid i'r digidol.

Mewn teledu byddwn yn gwneud gwaith pellach i danategu dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn oes pan fo teledu digidol a chartrefi sy'n cael eu galluogi â band eang yn fwyafrif, a phan mai lleiafrif sy'n gyflym leihau yn unig fydd cartrefi sy'n gwylio teledu analog. Bydd hwn yn cynnwys adolygiad ariannol o Channel 4 i helpu sicrhau bod y darlledwr mewn lle effeithiol i gyflawni'i rwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol; cwblhau gwaith i ddatrys y cwestiynau perchenogaeth hawliau sy'n ganolog i'r sector cynhyrchu teledu; datblygu ymhellach y cysyniad Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn ymestyn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus y tu hwnt i'w ardaloedd analog traddodiadol; ac ymchwil bellach ar deledu lleol.

Yn ystod 2006/7 byddwn yn cynyddu'r dewis a'r ystod o wasanaethau radio digidol drwy ddyfarnu amlblecsau newydd. Yn ehangach, byddwn yn ystyried cyfeiriad hirdymor y diwydiant radio, gan gynnwys dadansoddiad o ddyfodol y bandiau AM ac FM a safonau technegol radio digidol sy'n dod i'r amlwg a all gynnig rhagolygon gwasanaethau gwell.

O 15 Hydref byddaf yn rhoi'r gorau i'm swydd fel Prif Weithredwr Ofcom, Fel y dywedais pan gyhoeddodd Bwrdd Ofcom y byddaf yn rhoi'r gorau i'm swydd yn mis Mai, nid yw'r amser fyth yn iawn i adael swydd dda, ond gydag Ofcom bellach wedi'i sefydlu'n gadarn a'r diwydiannau cyfathrebiadau'n cyflawni canlyniadau go iawn, mae'n amser i rywun arall arwain y sefydliad nawr drwy gyfnod nesaf ei ddatblygiad.

Hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr am eu gwaith caled, a hoffwn ddiolch i'n nifer randdeiliaid am eu gwaith archwilio trwyadl, eu herio adeiladol a'u hymroddiad cadarnhaol gydol y flwyddyn. Mae eu cyfraniadau wedi arwain at yr hyn sydd, gobeithiaf, yn benderfyniadau mwy gwybodus ynghylch yr ymagwedd iawn at y sector deinamig a hudol hwn.

Stephen A. Carter, Prif Weithredwr

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynnwys

Egwyddor arweiniol y Bwrdd Cynnwys yw nodi ble mae buddiannau haeddiannol dinasyddion y DU – mewn perthynas â chynnwys darlledu – ac i ymyrryd i'r graddau lleiaf posibl sydd eu hangen yn rhyddid gweithredu darlledwyr a'u rhyddid mynegiant.

Y digwyddiad pwysicaf ym mlwyddyn y Bwrdd Cynnwys oedd cyhoeddi Côd Darlledu cyntaf Ofcom – prosiect mawr, a dynnodd ar godau cynnwys rhaglenni blaenorol y Comisiwn Safonau Darlledu, y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio, ond gan eu hail-lunio'n sylweddol. Nod cyffredinol y Bwrdd Cynnwys oedd sicrhau y gallai rhyddid mynegiant ffynnu tra'n cynnal pwysigrwydd amddiffyn plant. Her y Bwrdd Cynnwys oedd gwneud hyn yn erbyn cefnlen amgylchedd cyfryngau newidiol, lle mae argaeledd deunydd clyweled yn cynyddu.

Yn ystod wyth mis cyntaf ei weithredu mae'r côd newydd wedi cael cychwyn calonogol. Mae'n cynnig rheolau symlach a chliriach, ac fe'i hategir gan arweiniad croyw ar y modd i osgoi torri rheolau'r côd, ac edrycha Ofcom ymlaen at barhau i weithio â darlledwyr i weithredu'r côd.

Roedd dwy farn a luniwyd gan y Bwrdd Cynnwys yn tanlinellu'r ymagwedd at safonau darlledu y mae'r côd newydd yn ei sefydlu. Yn gyntaf, nododd y Bwrdd Cynnwys, o dan gadeiryddiaeth fy rhagflaenydd Richard Hooper, bod darllediad y BBC o *Jerry Springer - the Opera* wedi creu nifer nas gwelwyd erioed o'r blaen o gwynion i Ofcom. Cydnabu'r Bwrdd Cynnwys bod achwynwyr yn amlwg yn teimlo bod y sioe yn dirmygu'r ffydd Gristnogol, ac roedd y modd y cynrychiolwyd cymeriadau crefyddol yn sarhaus i rai. Fodd bynnag, wrth ddod i'w gasgliad nad oedd y rhaglen yn mynd yn groes i'r côd, rhoddodd y Bwrdd Cynnwys ystyriaeth i'r pwys a roddir ar ryddid mynegiant, yn enwedig yng nghyd-destun gweithiau artistig, credoau, athroniaeth ac ymresymiad. Gwelwyd yr Opera hefyd fel gwaith a sylwebaeth bwysig ar deledu modern ac - yn hanfodol - roedd y BBC wedi mynd i gryn drafferth i roi gwybodaeth i wylwyr potensial i'w galluogi i lunio barn wybodus ynghylch gwylio ai peidio.

Yr ail benderfyniad pwysig a ystyriodd y Bwrdd Cynnwys oedd p'un ai i ganiatáu ffurf fwy eglur ar gynnwys 'oedolion', a elwir gan fwrdd dosbarthu'r BBFC yn R18, ar deledu cebl a lloeren. Roedd y penderfyniad hwn yn canolbwyntio ar ba un a yw mecanweithiau amddiffyn - rhifau PIN ac ati - yn rhoi diogelwch digonol i atal mynediad gan blant. Daeth

y Bwrdd i'r casgliad nad ydynt, ar hyn o bryd, ar gyfer y deunydd rhywiol cryfaf, ac argymhellodd i brif Fwrdd Ofcom felly y dylai'r cyfyngiad aros. Wrth i dechnoleg ddatblygu, fe all y farn hon newid.

Yn y maes safonau hefyd, roedd Ofcom eisoes wedi contractio hysbysebu darlledu allan i gorff cyd-reoleiddio, yr Awdurdod Safonau Hysbysebu. Cafodd y Bwrdd Cynnwys adroddiadau ar weithrediad y system newydd a oedd i weld, yn ystod blwyddyn lawn gyntaf ei gweithredu, heb fod wedi arwain at unrhyw ostyngiad mewn safonau darlledu hysbysebu. Cyfrannodd y Bwrdd Cynnwys at yr opsiynau polisi yn ogystal, ac yn arbennig at gynllunio'r ymchwil ar gyfer ymgynghori ar gyfyngiadau newydd ar hysbysebu cynhyrchion bwyd a diod i blant sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr.

Rôl statudol, hanfodol, i'r Bwrdd Cynnwys yw adlewyrchu buddiannau gwledydd a rhanbarthau'r DU i Ofcom mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch cynnwys. Rhoddodd y Bwrdd Cynnwys arweiniad cryf i adolygiad Ofcom o'r sector cynhyrchu teledu, mewn perthynas â chynyrchiadau y tu allan i Lundain. Hefyd, pwysleisiodd y Bwrdd Cynnwys pwysigrwydd, yn y dyfodol, mecanweithiau dosbarthu teledu newydd fel rhan o adroddiad Ofcom ar gynnwys lleol digidol.

Cyhoeddodd Ofcom ei adolygiad strategol o'r sector radio, a, chan dynnu ar gyngor gan y Bwrdd Cynnwys, eiriolodd diddymu rheoleiddio 'mewnbwn' ymyrgar yn yr hirdymor, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar y fformatau a'r cynnwys ei hun. Ar yr un pryd, ailddatganodd y Bwrdd Cynnwys pwysigrwydd cynnwys lleol mewn radio lleol, a chadarnhau'r arweiniad i orsafoedd ar y modd i gyflawni'r cysylltiad angenrheidiol â'u cymunedau.

Rwyf wedi bod yn ffodus i etifeddu'r Bwrdd Cynnwys a gafodd ei recriwtio a'i lunio gan Richard Hooper, a Sara Nathan. Mae'r Bwrdd Cynnwys eisoes wedi sefydlu dull cryf a chyson i'n gwaith o reoleiddio cynnwys.

Bydd cynnal hyn yn hanfodol wrth i ni symud yn gyflym i amgylchedd rheoleiddio newydd, wrth i'r sector cyfathrebiadau ddatblygu'n gyflym ac wrth i agweddau a dewisiadau defnyddwyr newid. Yn y dyfodol mae'n debygol y bydd llai o bwyslais ar reoleiddio cynnwys yn allanol, a mwy o bwyslais ar alluogi cynulleidfaoedd i wneud dewisiadau gwybodus, drwy 'labelu' clir a ffyrdd gwell o lywio ymysg ffurfiau cyfryngau newydd a rhai newydd eu cydgyfeirio. Uwchlaw popeth, fel mae'r diwydiannau cynnwys yn datblygu bydd y prif gyfiawnhad dros gyfyngu ar ryddid mynegiant gan ddarlledwyr yn ymwneud ag amddiffyn plant a phobl ifanc.

Yn agos iawn â hyn y mae rôl y Bwrdd Cynnwys wrth oruchwylio prosiect parhaus Ofcom, Llythrennedd y Cyfryngau. Yn ystod yr amser o dan arolygiad, arweiniodd hyn at gyhoeddiad ymchwil bwysig ar lefelau presennol mynediad i'r ystod lawn o gyfryngau, a galluoedd gwahanol i ddeall a chreu cynnwys.

Mae'r Bwrdd Cynnwys hefyd yn rhoi cyngor i'r Bwrdd Gweithredol a'r Prif Fwrdd ar brosiectau sy'n llunio darpariaeth cynnwys y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu'r cysyniad Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus ymhellach fel modd o gynnal darlledu gwasanaeth cyhoeddus; gwaith i sicrhau bod Ofcom yn hyrwyddo i'r eithaf y 'difidend digidol', a fydd yn deillio o'r newid i deledu digidol; a'r prosiect cyfryngau cydgyfeiriol i ddatblygu model rheoleiddio sy'n briodol i gynnwys y cyfryngau yn y dyfodol.

Edrychaf ymlaen at arwain y Bwrdd Cynnwys wrth fwrw ati i gyflawni'r heriau hyn.

Am wybodaeth ar waith pwyllgorau Tegwch a Sancsiynau Cynnwys gweler tudalen 85 i 86 o Adran C.

Philip Graf CBE, Cadeirydd, y Bwrdd Cynnwys

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynnwys

Ffigur 2

Gwnaeth y Bwrdd Cynnwys y penderfyniadau a'r argymhellion canlynol i brif Fwrdd Ofcom neu'r Pwyllgor Trwyddedu Radio:

'Haen 1' – safonau a chodau eraill y diwydiant

- Cymeradwyo drafft terfynol Côd Darlledu Ofcom, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005
- Cytuno newidiadau i'r Côd Hysbysebu mewn perthynas ag alcohol a hawliadau iechyd
- Ystyried newidiadau i'r prosesau ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch triniaeth annheg ac achosion o dorri ar breifatrwydd mewn rhaglenni radio a theledu
- Dyfarnu ar yr 8,860 o gŵynion a gafwyd ynghylch rhaglen BBC Dau *Jerry Springer - the Opera*, gan ddod i'r casgliad nad oedd yma achos o dorri'r Côd Darlledu perthnasol
- Gwrthod apêl gan y BBC yn erbyn penderfyniad yr Adran Weithredol i gofnodi achos o dorri gofynion safonau'r Côd Darlledu perthnasol ar gyfer darlledu *Pulp Fiction* yn rhy gynnar fin nos
- Cymeradwyo diwygiad arfaethedig i'r rheolau yn rheoli traws-hyrwyddo rhwng gwasanaethau darlledu
- Cymeradwyo arweiniad newydd Ofcom ar safonau derbyniol mewn rhaglenni newyddion byw ac mewn trêls darlledu

'Haenau 2 a 3' – teledu gwasanaeth cyhoeddus

- Cymeradwyo cynigion ar gyfer ymchwil a seminarau 'rhanddeiliaid' i asesu effeithiolrwydd cyflawni Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus; rhaglenni materion cyfoes oedd testun y seminar cyntaf felly
- Ystyried datganiadau polisi blynyddol ac adolygiadau gan Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, a chytuno bod y rhain yn cydymffurfio â Nodyn Arweiniad Ofcom
- Cymeradwyo adolygiad cwotâu Ofcom ar gyfer rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion ar ITV1 yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon
- Cytuno i derfynu 'tuedd' am i fyny cwota cynhyrchu gwreiddiol Five, ond ei osod ar lefel uwch – 55 y cant – nag y gofynnwyd amdani gan y darlledwr

Fformatau radio

- Cytuno i agweddau ar newidiadau fformat yn cael eu cynnig gan Classic Gold AM a Star Radio, ond gwrthod rhai eraill
- Gwrthod cytuno i newid mewn fformat ar gyfer yr orsaf radio Kix 96 yn Coventry

Llythrennedd y cyfryngau

- Cytuno cynlluniau ar gyfer archwiliad o lythrennedd y cyfryngau yn y DU, a phennu polisi Ofcom mewn perthynas â llythrennedd y cyfryngau am y flwyddyn i ddod
- Cytuno y dylai Ofcom gynorthwyo Tasglu Llythrennedd y Cyfryngau y diwydiant, ond na ddylai ddod yn llofnodwyr i'w Siarter

Prif adolygiadau

- Cymeradwyo cynigion polisi a thestun Adolygiad Radio Ofcom
- Goruchwylio cynllunio'r Adolygiad o'r Sector Cynhyrchu Teledu, a chytuno opsiynau polisi a thestun yr adroddiad
- Gwneud cyfraniad at yr opsiynau polisi a'r testun ar gyfer ymgynghoriad Ofcom, Hysbysebu Cynhyrchion Bwyd a Diod i Blant ar y Teledu
- Goruchwylio cynllunio'r prosiect ar reoleiddio Cyfryngau Cydgyfeiriol
- Sefydlu'r ymagwedd a ddilynir mewn adroddiad wedi'i gyhoeddi ar ddyfodol Cynnwys Lleol Digidol, a chymeradwyo testun yr adroddiad